

## **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw: David Cook

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Cyngor Gweithredu  
Gwirfoddol Cymru

e-bost / rhif ffôn: [dcook@wcva.cymru](mailto:dcook@wcva.cymru) / 02920 431 710

Eich cyfeiriad: CGGC, Tŷ Baltig, Mount Stuart Square,  
Caerdydd CF10 5FH

### **Cwestiwn 1: Byddem yn hoffi clywed eich barn am swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol**

Mae ein safbwyntiau yn seiliedig ar adborth gan fudiadau sector gwirfoddol ar hyd a lled Cymru, ynghyd ag asesiad o'n safle ni fel y corff aelodaeth cenedlaethol yng Nghymru. Nodwn rai pwyntiau cyffredinol a phenodol:

1. Mae angen deall beth fydd yn gweithio a ddim yn gweithio i bobl yn ddigidol. Mae hyn yn cynnwys mynediad, cysylltedd, sgiliau a hyder.
2. Mae gan y sector gwirfoddol fynediad at ddata gwerthfawr. Rydym yn credu'n gryf y dylai'r Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol (yr Awdurdod) ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau, yn ogystal â'r data y mae'n ei gyhoeddi fel rhan o'i broses adrodd. Mae'n rhaid i'r sector fod yn rhan o'r trafodaethau hyn.
3. Mae'n rhaid i Fframwaith Llywodraethu Digidol yr Awdurdod egluro sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cyfrannu at weithrediad llwyddiannus Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut bydd hwn yn cael ei fesur.
4. Mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi lleisio pryderon ynghylch sut bydd pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn y sgwrs ddigidol – nid yw hyn wedi'i amlinellu'n eglur yn y ddogfennaeth. Dengys data Llywodraeth Cymru mai dim ond 49% o oedolion dros 75 oed yng Nghymru sy'n defnyddio'r rhyngwyd. Mae'n rhaid i unrhyw ddull gweithredu digidol yn gyntaf beidio â lleihau cyfleoedd pobl hŷn i gael mynediad at wasanaethau, neu mae perygl y bydd problemau iechyd, anghydraddoldebau, unigrwydd ac ynysu yn cynyddu.
5. Hoffem glywed hefyd sut bydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol (yr Awdurdod) yn mynd i'r afael ag anghenion y rheini â phroblemau gyda'u synhwyrâu. Gallai'r Awdurdod fod o fudd mawr i'r rheini â nam ar eu synhwyrâu drwy ddefnyddio fideo gyda sain, Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac isdeitlau a dangos ei fod yn esiampl. Fodd bynnag, os na fydd hyn yn digwydd, gallai'r Awdurdod fod yn ddim mwy na rhwystr arall i gael mynediad at wasanaethau i'r rheini sydd eu hangen mwyaf. Yn yr un modd, mae angen ystyried y rheini ag anableddau dysgu o ran angen a mynediad.
6. Mae'n hanfodol fod yr Awdurdod yn nodi'n eglur sut bydd yn gweithio gyda phobl hŷn, y rheini â nam ar eu synhwyrâu ac unigolion eraill a allai wynebu rhwystrau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau – er enghraifft, pobl BAME – er mwyn

cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o gael Cymru sy'n fwy cyfartal a sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn effeithiol â Chymru Iachach. Os na fydd hyn yn digwydd, mae perygl y bydd pobl yn cael eu gadael ar ôl.

7. Yn yr un modd, mae band eang yn wael iawn mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru. Mae'n hanfodol nad yw'r bobl a'r cymunedau yn yr ardaloedd hyn yn cael eu gadael ar ôl wrth symud tuag at fyd digidol a'u bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau mewn ffyrdd mwy traddodiadol.
8. Mae'n hanfodol fod clystyrau meddygon teulu yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn y newidiadau hyn.
9. Mae'n hanfodol fod gwasanaethau yn cael eu dylunio, comisiynu, cynllunio a'u darparu mewn modd cydgynhyrchiol fel bod pob rhanddeiliad yn cael gwir ymdeimlad o berchnogaeth. Ni allwn weld o'r ddogfen hon a yw cleifion a'u gofalwyr wedi cael eu cynnwys mewn trafodaethau cynnar ar ddatblygu'r Awdurdod, gan ystyried bod Llywodraeth Cymru yn 'rhoi pobl a chleifion wrth galon y gwaith hwn'.

## **Cwestiwn 2: Byddem yn hoffi clywed eich barn am strwythur arfaethedig y bwrdd ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol**

10. Mae'r sector gwirfoddol yn cael ei anghofio yn y ddogfennaeth. Fel un o brif gyflenwyr gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd Cymru, yn bersonol ac yn ddigidol, rydym yn credu y byddai'r Bwrdd yn elwa ar gael cynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol. Nid oes cynrychiolaeth o'r fath yn strwythur presennol y Bwrdd. Byddai'r sector hefyd yn gallu helpu i hysbysebu cyfleoedd i ymgeisio i fod yn aelod o'r Bwrdd – gan ehangu cyrhaeddiad ac amrywiaeth y broses recriwtio.

## **Cwestiwn 3: Os ydych chi'n credu bod un neu fwy o swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol yn gorgyffwrdd â swyddogaeth sydd eisoes yn cael ei chyflawni gan sefydliad gwahanol yng Nghymru (nad yw'n NWIS), byddem yn hoffi clywed eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn ar y materion hynny.**

11. Fel y nodwyd uchod, mae allgau digidol yn parhau i fod yn broblem i lawer o bobl yng Nghymru. Dylai'r Awdurdod nodi sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â hyn. Rydym yn awyddus i glywed sut y bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i sicrhau bod cynhwysiant digidol o fewn gwasanaethau iechyd Cymru.
12. Rydym hefyd eisiau clywed mwy am sut gall y Padletau a roddwyd i gartrefi gofal gael eu cyflwyno'n ehangach i leoliadau preswyl eraill a reoleiddir ac i bobl sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi sydd wedi'u hynysu'n ddigidol.

## **Cwestiwn 4: Byddem yn hoffi clywed a ydych chi'n credu y dylid cynnwys swyddogaeth arall neu set arall o swyddogaethau o fewn cyfrifoldeb yr Awdurdod**

**lechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol ac i chi nodi eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth ac ymchwil i gefnogi eich barn.**

13. Bydd sganio'r gorwel a diogelu'r dyfodol yn rôl bwysig i'r Awdurdod. Er bod llawer o waith i'w wneud heddiw, mae'n rhaid i'r Awdurdod – a Chymru – fod yn barod ar gyfer yr hyn sydd i ddod yn y blynyddoedd nesaf. Mae technoleg yn symud yn gyflym!

**Cwestiwn 5: Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effeithiau y byddai 'Awdurdod lechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

14. Mae'n rhaid i'r Gymraeg gael ei hymwreiddio mewn cynlluniau a phrosesau o'r cychwyn cyntaf. Mae'n rhaid i bobl allu defnyddio'r iaith o'i dewis wrth ryngweithio â'r Awdurdod.

**Cwestiwn 6: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Awdurdod lechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

15. Gweler ein hymateb i Gwestiwn 5.

**Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

**Rhowch eich sylwadau yma:**

16. Ni chyfeirir at y sector gwirfoddol yn y deunydd ymgynghori. Os bydd y sector yn cael ei gadw allan o'r prosesau cynllunio, ni fydd yr Awdurdod a'i bartneriaid yn cael budd o'r cyfoeth o ddata a gwybodaeth sydd ganddo. Mae cyfleoedd da i weithio mewn partneriaeth yn y maes hwn, ac argymhellwn fod y cyfleoedd hyn yn cael sylw er mwyn cyflawni'r budd mwyaf posibl i bobl ledled Cymru.

17. Mae gan y sector ran hanfodol i'w chwarae yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd digidol, cyfoeth o brofiad a gwybodaeth ddigidol arloesol ac effeithiol. Dylai'r Awdurdod sylweddoli ei fod yn chwaraewr allweddol, a'i drin fel un. Fodd bynnag, bydd angen cymorth arno, gan gynnwys cyllid ar gyfer hyfforddiant a chyfarpar – gan fudiadau dan arweiniad cymunedau a mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yr holl ffordd i fyny at seilwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru – i fod mor effeithiol â phosibl o dan y strwythur hwn.

18. Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro wedi argymhell y dylai grŵp defnyddwyr dinasyddion fod yn rhan o'r Awdurdod er mwyn profi'r syniadau a'r cysyniadau, ac rydym ni o'r un farn.
19. Mae'n rhaid i'r Awdurdod hefyd ddangos sut bydd yn rhannu arferion digidol da a chefnogi rhanddeiliaid i wneud yr un peth. Mae'n rhaid iddo hefyd sicrhau ei fod yn dangos yr effaith y mae wedi'i chael ar gymunedau ar hyd a lled y wlad.
20. Mae cyflwyno gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd digidol yn gweithio'n dda i'r rheini sy'n hyddysg mewn pethau digidol. Mae cyflenwi wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn bwysig pan nad yw rhywun eisiau ymgysylltu'n ddigidol, yn enwedig o ran penderfyniadau ar y cyd.
21. Byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o eglurder ar sut bydd yr Awdurdod yn darparu cyllid o dan y Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol. Ymddengys y bydd angen i lawer o'r gweithlu, gan gynnwys gweithlu'r sector gwirfoddol, ddatblygu eu sgiliau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y symud i fyd digidol – bydd angen cyllid ar gyfer hyn, ac, wrth gwrs, ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol digidol critigol.
22. Diolchwn i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at ein hymateb, gan gynnwys Gofal a Thrwsio Cymru, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam.
23. Byddai CGGC yn fwy na pharod i drafod y pwyntiau hyn neu unrhyw bwyntiau eraill sy'n ymwneud â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad gyda swyddogion, pwyllgorau neu Weinidogion yn ôl yr angen.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: